

Rheoli cymunedol: Tir Coed

Mae Tir Coed yn darparu rhaglenni a phrosiectau sy'n defnyddio coetir fel offeryn ar gyfer adfywio gwledig a datblygu sgiliau. Mae Tir Coed, sy'n annog arallgyfeirio a model economaidd cylchol o goetiroedd sy'n aml yn cael eu hystyried yn aneconomaidd i'w rheoli'n fasnachol, yn cynnig gweithgareddau addysgol ac iechyd, yn darparu cyfleoedd gwaith ac yn rheoli coetiroedd i bobl a'r amgylchedd. Dechreuodd Tir Coed weithio ar YGLIC yn 2007 gyda'r prosiect WICKED.



Mae Tir Coed wedi bod yn rheoli Coed Tŷ Llwyd, safle 23 hectar o YGLIC o goetir lled-hynafol hynod amrywiol, dan gontract gwerthiant dim cost ers 2010.

Cynhyrchwyd y Cynllun Rheoli Coetiroedd gan Tir Coed ar y cyd â rheolwyr tir CNC ac mae'n cael ei adolygu bob hyn a hyn. Caiff ei ddefnyddio i gyflenwi llwybrau i gyflogaeth trwy hyfforddiant a phrentisiaethau achrededig; datblygu sgiliau ar gyfer troseddwr ifanc; gweithgareddau iechyd a lles ar gyfer gofalwyr ifanc a sgiliau glasgoed e.e. adeiladu dodrefn, ffens ac offer chwarae. Mae rheolaeth Tir Coed ar Goed Tŷ Llwyd hefyd wedi gwella bioamrywiaeth, wedi rhoi mwy o fynediad i'r cyhoedd ac wedi cyflwyno system reoli coedamaeth effaith isel.

Mae Tir Coed yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o berchnogion a rheolwyr coetiroedd gan gynnwys y *Woodland Trust*, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, *RSPB*, coetiroedd cymunedol a CNC ar YGLIC.

www.tircoed.org.uk

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

